



**1,792**  
O FFERMYDD LLAETH WEDI COFRESTRU  
GYDA CYSWLLT FFERMIO

## EIP Cymru

### Defnyddio technoleg 'Rhyngwyd y Pethau' (IoT) i wella dulliau rheoli slyri ar ffermydd



Mae Coleg Glynllifon yn un o dair fferm yng ngogledd Cymru sy'n profi gallu detholiad o synwryddion Rhyngwyd o Bethau LoRaWAN (Rhwydwaith Ardal Eang Ystod Pell) i wneud penderfyniadau ar sail mwy o wybodaeth o ran pryd mae'r amodau yn addas i chwalu slyri ar gaeau i leihau'r risg o lygru cyrsiau dŵr gerllaw.

Gosodir synwryddion mewn lleoliad cynrychioliadol ar bob fferm. Bwydir ffrwd barhaus o ddata, ynghyd â'r rhagolygon tywydd, i offeryn creu delwedd o ddata y gall ffermwyr ei ddefnyddio i benderfynu a yw cyflwr y cae yn addas i chwalu slyri.

## Rhwydwaith Arddangos

### Meistroli Slyri i Ffermwyr Llaeth

Daeth ffermwyr Llaeth at ei gilydd i wella eu gwybodaeth am werth tail a'i effaith amgylcheddol a'i fanteision. Coleg Glynllifon oedd lleoliad y cwrs, a rannwyd yn ddau ddiwrnod gwahanol er mwyn bod yn addas i ffermwyr, a rhoi cyfle i'r rhai fu'n bresennol ystyried yr hyn a ddysgwyd rhwng pob sesiwn.

Rhannwyd y cyflwyniadau yn ddau, gyda Keith Owen o KeBeK Ltd a Chris Duller, arbenigwr glaswelltir a phriddoedd. Arweiniodd Keith yn ystod y bore, a Chris yn dilyn yn y prynhawn i gyflwyno'r newidiadau i'r Rheoliadau Llygredd Amaethyddol ar ôl Ionawr 2023 ac Ionawr 2024.

Keith Owen, arbenigwr dylunio adeiladau a storio tail, KeBeK Ltd, oedd yn trafod y canlynol:

- Y gwahaniaeth rhwng y rheoliadau SSAFO blaenorol a'r rheoliadau newydd.
- Beth sydd angen ei wneud a phryd.
- Beth sy'n cael ei alw'n slyri a beth sydd ddim.
- Beth sy'n cael ei alw'n ddŵr ffo wedi ei faeddu ychydig, a beth mae hyn yn ei olygu.
- Sut i leihau'r slyri/dŵr budr a gynhyrchir mewn ffordd gynnil, a thrwy hynny gynyddu'r cynhwysedd storio.
- Sut i gyfrifo'r cynhwysedd storio presennol.
- Sut i gyfrifo'r cynhwysedd storio sy'n ofynnol, beth ellir ei gynnwys a beth ellir ei adael allan.
- Taith fferm, yn edrych ar enghreifftiau o'r hyn sy'n cydymffurfio a beth sydd ddim yn cydymffurfio, gyda chynghor ar beth y gellir ei wneud i ymdrin ag unrhyw broblemau.

Trafododd Chris Duller, arbenigwr priddoedd glaswelltir, y pynciau canlynol yn y prynhawn:

- Y prif lwybrau i golli nitrogen (N) a ffosfforws (P).
- Y prif yrwyr i golli maetholion.
- Cyfanswm y maetholion a'r rhai sydd ar gael.
- Gwerth slyri/tail, gan gynnwys deunydd traul a dofednod.

Daeth contractwr y coleg ei hun, William Huw Roberts, i'r sesiwn olaf i rannu ei brofiad hyd yn hyn a sut y bydd yn rheoli'r newidiadau sydd i ddo a fydd yn eu lle ar ôl Ionawr 2023.


Cynigiodd y digwyddiad manwl hwn gyfle i ffermwyr Llaeth drafod eu harferion presennol a thrafod syniadau o ran sut y byddant/y gallant newid eu harferion rheoli i fodloni'r ddeddfwriaeth newydd.

## Canolbwyntio ar draed: Lleihau cloffni mewn systemau godro robotig

Yn ôl ym Mai 2022, roedd cloffni wedi codi i 21% ar Fferm Graig Olway, ger Brynbuga, gyda rhai achosion newydd yn ymddangos. Oherwydd cyfyngiadau TB, roedd y siediau heffrod yn fwy llawn nag y byddai'r ffermwr Russell Morgan yn ei hoffi, gan fod sied arall yn cael ei hadeiladu gyda robot newydd; fe wnaeth hyn gyfrannu at gynnydd yn y ganran cloffni yn yr heffrod. Ewch ymlaen i Orffennaf, ac mae'r cloffni wedi lleihau i 16%. Roedd y buchod yn gwella yn gyflymach, oherwydd y sgorio cynnar a sensitif, a oedd yn eu galluogi i gael eu gweld mewn dim mwy nag ychydig ddyddiau ar ôl dangos arwyddion o gloffni.


Fel rhan o'r protocol diwygiedig yn ôl ym mis Mehefin, rhoddwyd Cyffuriau Gwrthlidiol Heb fod yn Steroidau (NSAID), ynghyd â thrimio eu traed a gosod bloc. Bwriad hyn oedd lleihau difrifoldeb y cloffni ac i atal unrhyw gleisio neu i achosion bach o gloffni ddatblygu ymhellach. Ond, gyda chost cynhyrchu Llaeth yn cynyddu, penderfynwyd stopio defnyddio NSAID am gyfnod, i weld a oedd yn fuddiol mewn gwirionedd. Ar ôl ychydig o wythnosau heb driniaeth, roedd Russell yn sylwi bod y buchod yn cymryd mwy o amser i adfer, a bod cleisio yn y carnau yn datblygu ymhellach, ac nad oedd cloffni yn lleihau. Felly roedd yn dangos pwysigrwydd NSAID i achosion newydd a lleihau cloffni difrifol – gwrs dda i'r busnes.

Rydym yn ymwybodol o effaith tywydd poeth ar fuchod, a chafodd y tywydd eithriadol o boeth ym mis Gorffennaf effaith mawr ar y buchod, yn anffodus, gyda chloffni'n cyrraedd 26% yn ystod yr wythnos boethaf. Nid oedd hyn yn annisgwyl, ond roedd yn galonogol iawn nad oedd difrifoldeb yr achosion newydd i'r un graddau â blynyddoedd blaenorol a bod y buchod yn gwella'n dda erbyn y sgorio nesaf. Ond mae hyn yn dangos pwysigrwydd llif awyr a systemau oeri mewn siediau. Gosododd Graig Olway ffaniau tiwb dros y chwe mis diwethaf, ond ni fu'r gosodwyr yn llwyddiannus wrth sicrhau'r llif aer gorau i'r buchod fod yn gyfforddus. Mae hon yn her wrth symud ymlaen, ac mae Russell yn awyddus i ddal ati er mwyn cael y llif aer gorau. Isod mae enghraifft o'r adroddiad a gynhyrchwyd gan Sara Pedersen bob pythefnos, ar ôl adolygu sgoriau symudedd a'r cofnodion trimio traed.



Ffigur 1. Crynodeb symudedd Graig Olway: 22.08.2022

Isod mae enghraifft o'r rhestr drimio a baratowyd ar gyfer y tîm cyfan a'i rannu i sicrhau bod pawb yn gwybod am y sefyllfa bresennol. Fel y gwelwch, mae llawer o fanylion ar y rhestr, sydd yn dda iawn o ran dadansoddi data a deall patrymau yn y cloffni o fis i fis.



Ffigur 2. Rhestr trimio traed Graig Olway 23.09.2022

## Grwpiau Trafod Llaeth



**30** LLAETH CYFARFOD TRAFOD  
wedi'u cynnal gyda



**208** O FNYCHWYR

### Astudiaeth Achos

Mae Grŵp Llaeth Llanrwst, grŵp trafod llaeth o Ogledd Cymru, wedi bod yn clywed mwy a mwy am ffermio adfywiol yn y sector llaeth. Gwahoddwyd Sam Carey (Milkwell Ltd), sy'n fentor Cyswllt Ffermio a ffermwr menter ar y cyd, i siarad am ei daith hyd yn hyn i ffermio adfywiol, a pham ei fod wedi gwneud hynny.

Prif nod Sam yw symud o uned laeth dan do 365 i un bori 365 gyda chyn lleied â phosibl o gost a llafur, gan weithio mewn cytgod â'r amgylchedd.

Taith yn ffermio hyd yn hyn:

Magu yn Sir Benfro

**2013** – Tyn y Bryn, Pentrefoelas (hwsmon cyflogedig)

**2015** – Rhiwlas, Bala – ffermio ar y cyd (trosi'n llawn)

**2021** – Mathrafal, Machynlleth, Tenantiaeth Busnes Fferm 20 mlynedd yn trosi fferm ddefaid 180ha yn fferm odro

Y diffiniad o ffermio adfywiol yw:

*“Unrhyw a phob ffurf ar arferion amaethyddol sy'n weithredol yn adfer ansawdd y pridd, bioamrywiaeth, iechyd ecosystem, ac ansawdd dŵr gan gynhyrchu digon o fwyd o safon faethol uchel.”*

Prin yw'r astudiaethau gwyddonol i gefnogi ffermio adfywiol, felly mae Sam yn dibynnu ar gynhyrchwyr/busnesau tebyg ar draws y byd i gael arweiniad a dylanwad. Er bod y dirwedd a'r hinsawdd mor wahanol, mae llawer o elfennau tebyg. Prif ddylanwadwyr Sam yw:

Allen Williams, UDA; Ian Mitchell-Innes, De Affrica; Elaine Ingham, UDA; Newman Turner, y Deyrnas Unedig

### Prif amcanion Sam yn yr uned newydd:

- Anelu at drosi'r fferm gyda dim ond effaith anifeiliaid
- Pori 365 diwrnod y flwyddyn (dim siediau)
- Dim mewnbynnau heblaw gwair (dim dwysfwyd, calch, gwrtait, ail-hadu, cemegolion)
- Proffidoldeb yr hectar i gymharu â system gonfensiynol

### Targed y system

- Lloea – 20 Ebrill – cyfnod lloea 42 diwrnod (6 wythnos)
- Lloea allan, y lloea'n cael eu magu allan
- Mwynau dewis rhydd
- 250 diwrnod yn llaetha, cynhyrchu 3800 Litr/ y buchod yn cael eu cadw ar 2 fuwch/Ha
- Pris llaeth i gyfateb i'r costau 19.5 ceiniog y litr
- Treuliau gweithio'r fferm yn 40% o'r incwm
- Dim mewnbynnau

### Milkwell Ltd – nodau busnes a diben:

- Llundio busnes ffermio cyfrannol adfywiol
- Gwellar holl adnoddau – pobl, pridd, glaswellt, buchod, amgylchedd ac ariannol
- Creu cyfleoedd i symud ymlaen i bobl sy'n gweithio gyda ni

Roedd rhyngweithio rhagorol trwy gydol y cyfarfod, gyda llawer o gwestiynau gan aelodau'r grŵp. Yn sicr fe roddodd Sam waith meddwl, gyda llawer o'r aelodau'n meddwl o ddifri am eu harferion ffermio o ystyried y cynnydd ym mhrisiau mewnbynnau.

## Y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:



ARALLGYFEIRIO BUSNES FFERM – O SAFBWyNT YMCHWIL

### Cymorthfeydd



**40** O GYMORTHFYDD WEDI'U CYNNAL

Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys:

Cynllunio ar gyfer Llygredd Amaethyddol	Cyfrifyddiaeth
Busnes	TGCh
Isadeiledd	Cymorthfeydd Taliadau Gwledig Cymru (RPW)
Marchnata ac Arallgyfeirio	Cyfreithiol
Cynllunio	Amaethyddiaeth a Chyfraith Olyniaeth

Rhoddodd y Cymorthfeydd seilwaith a Llygredd Amaethyddol gyngor ac arweiniad am storio slyri, trafod llwytho N a sut i gydymffurfio â'r rheoliadau llygredd amaethyddol newydd.


Gwnaeth busnes gais am gymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio yn ymwneud â gosod parlwr godro robotig ac roeddent am ddechrau prosiect arallgyfeirio ochr yn ochr â hyn. Arweiniodd hyn at gymhorthfa arall yn ymwneud â chynllunio.

### Hyfforddiant

Ystod y cyfnod hwn, darparwyd **69** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i'r sector llaeth.

Y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym mhob categori oedd:

Cyfanswm:



Cymorth Cyntaf yn y Gweithle mewn Argyfwng	10
Tryc Codi Telesgopig ar gyfer Tir Garw	8
Sganio Gwartheg	7
Trimio Traed Gwartheg	4
ATV gan gynnwys llwythi ac offer sy'n cael ei lusgo (Eistedd arno)	4
Trimio Traed Gwartheg (Lefel Uwch)	4

### E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

RHYWOGAETHAU GLASWELLTIR	TAIL FFERM WEDI'I GOMPOSTIO
LLYGREDD AER AMAETHYDDOL	ADNODDAU DYNOL AR Y FFERM

Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

## Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid (sy'n berthnasol i'r sector Llaeth)



**4** GWEITHDY hwedi'u cynnal gyda



**48** O FNYCHWYR

Ymwrthedd i Wrthfotigau



Rheoli Parasitiaid mewn Gwartheg

